

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Swyddog Cyfathrebiadau, Atynnu ac Ymgysylltu

37 AWR YR WYTHNOS

CYFEIRNOD: 503104

GRADD 7 - CYFLOG: £25,878 - £26,845 y flwyddyn

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n chwilio am weithiwr cyfathrebiadau ac ymgysylltu ymroddedig a chreadigol i ymuno â'n Tîm Y Wasg a Chyfathrebiadau prysur a leolir yn ein Pencadlys yn Llantrisant.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu ill dau'n chwarae rôl gritigol o fewn cenhadaeth y Gwasanaeth i 'gadw De Cymru'n ddiogel wrth leihau risg'. Bydd deilydd y swydd yn gweithio ar draws pob agwedd o gyfathrebu ac ymgysylltu, yn cynhyrchu datrysiadau arloesol wrth drefnu a hwyluso gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebiadau mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli ymgyrchoedd, cysylltu â'r wasg, hwyluso a chydlynu digwyddiadau ymgysylltu lleol ac ar raddfa fawr.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar sgiliau ysgrifennu cryf a'r gallu i ychwanegu dawn greadigol i'n cynnwys a gynhyrchwyd yn fewnol, gan gynnwys diwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â recriwti, lleihau risg ac enw da'r Gwasanaeth. Bydd y swydd yn gofyn am weithio'n gydweithredol ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ar draws 10 o Awdurdodau Unedol gan ddefnyddio amrediad o ddulliau i sbarduno Strategaeth Gyfathrebiadau ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn rhagweithiol.

O fewn y rôl amrywiol hon, ni fydd un diwrnod yr un poeth gyda therfynau amser cystadleuol, felly bydd angen i'r ysmgeisydd llwyddiannus fod yn effeithlon, yn drefnus a hyderus wrth weithio'n annibynnol. Yn ogystal â bod yn gallu defnyddio eich dyfeisgarwch a datblygu syniadau newydd, mae'r Gwasanaeth yn chwilio am aelod tîm fydd yn mwynhau gweithio'n gydweithredol. Mae'r gallu i deithio'n hanfodol ar gyfer y swydd hon, gan fydd y rôl yn gofyn am ymgysylltu ag adrannau mewnol ar draws ein Gorsafoedd a'n safleoedd o fewn De Cymru gan gynnwys partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol.

Os ych chi'n storiwr creadigol sydd â llygad barcud am stori o'r newyddion, ry'n ni'n edrych ymlaen yn eiddgar i glywed gennych!

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei chyrru drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/swyddi-gwag-cyfredol/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk.

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag RDS.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnodion troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac efallai bod yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn penodi.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng ngham y rhestr fer yn derbyn cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweiliadau). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Y dyddiad cau ar gyfer Ffurflenni Cais yw **27/09/23 12:00 hanner dydd**.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

